| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ebrill 10, 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward, Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Hunanasesiad Corfforaethol 2013** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

1.1 Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno Hunanasesiad Corfforaethol blynyddol y cyngor ar gyfer 2013.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

2.1 Mae'r adroddiad er gwybodaeth ac nid oes penderfyniad yn ofynnol. Ond, bydd yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol drafod yr Hunanasesiad Corfforaethol diweddaraf ac amlygu unrhyw feysydd sydd angen eu monitro yn y dyfodol gan y pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n ystyried yr Hunanasesiad Corfforaethol ar gyfer 2013, yn atodol yn Atodiad 1, ac yn trafod a oes angen unrhyw gamau pellach gan y pwyllgor.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Bydd y cyngor yn cynhyrchu hunanasesiad blynyddol i gynnal cydymffurfiad â'i oblygiad statudol i "wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus", fel sy'n ofynnol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

4.2 Mae hunanasesu'n ein helpu i ddeall ein cryfderau a'n gwendidau o ran ein prosesau allweddol, fel cynllunio strategol; rheoli perfformiad; cynllunio gweithlu; a rheolaeth ariannol. Mae'r casgliad yn dwyn at ei gilydd y meysydd sydd wedi eu nodi yn yr asesiad i'w gwella.

4.3 Mae'r ddogfen wedi ei chrynhoi ar sail dull a chwestiynu sefydledig Hunanasesiadau Corfforaethol blaenorol, o fod wedi cael mewnbwn gan swyddogion perthnasol a defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf.

4.4 Y cynlluniau ar gyfer lledaenu a chyfathrebu'r Hunanasesiadau Corfforaethol ydi:

- Eu hanfon at Swyddfa Archwilio Cymru (a fydd yn eu hystyried yn rhan o'i Hadroddiad Gwelliant Blynyddol ar gyfer y cyngor).
- Eu cylchredeg i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, er gwybodaeth.
- Eu cylchredeg i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, er gwybodaeth.

- Eu cyhoeddi ar wefan y cyngor, ynghyd â'n Hadroddiad Perfformiad Blynyddol a Llythyr Gwelliant Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.
- Eu cyhoeddi ar y fewnrwyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn gyfle i'r cyngor edrych yn fewnol arno'i hun i nodi unrhyw wendidau yn ei brosesau allweddol ac i ystyried sut y gellir gwneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn cynnal ein hymrwymiad i 'foderneiddio'r cyngor i gyflenwi effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid'.

**6. Faint fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes yna unrhyw oblygiadau cost o ganlyniad i'r adroddiad yma.

**7. Beth ydi prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaethpwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid yw'r Hunanasesiad Corfforaethol ei hun yn cynnig unrhyw newidiadau sy'n gofyn am Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Ond, dylai gwasanaethau ystyried Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw newidiadau y gellid eu cyflwyno i ddelio â'r meysydd a amlygwyd i'w gwella ac sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen.

**8. Pa ymgynghoriadau a gafwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Rhoddwyd mewnbwn i'r Hunanasesiad Corfforaethol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a swyddogion perthnasol eraill, yn cynnwys Archwilio Mewnol. Cyflwynwyd yr adroddiad hefyd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn ei gyfarfod ar Chwefror 18, a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar Chwefror 21, ac fe ymgorfforwyd unrhyw sylwadau/awgrymiadau yn y ddogfen wedi hynny.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes yna unrhyw risgiau newydd yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Ond, mae'r adroddiad yn amlygu nifer o broblemau i'r cyngor eu rheoli, h.y. gwendidau presennol lle mae angen camau pellach.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

11.1 Dim angen penderfyniad.